Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro

Lefel y gweithgarwch dilynol: Adolygiad gan Estyn

Cylch Meithrin Cefneithin Gorslas

1st Mynydd Mawr Scouts Hall
Black Lion Road
Gorslas
SA14 6RS

Dyddiad yr ymweliad: Medi 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod y lleoliad wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a Phrif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn tynnu'r lleoliad o unrhyw gategori gweithgarwch dilynol.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1 Cryfhau medrau rhifedd, llythrennedd a chorfforol plant.

Mae medrau llafar Cymraeg y plant yn datblygu'n briodol, gyda'r rhan fwyaf yn dangos dealltwriaeth gynyddol gadarn o'r iaith. Mae hyn i'w weld wrth iddynt ymateb i gwestiynau a chyfarwyddiadau trwy'r Gymraeg. Mae ymarferwyr wedi canolbwyntio ar ddefnyddio'r iaith yn gyson gyda'r plant yn ystod eu holl weithgareddau. Defnyddia'r ymarferwyr eirfa gyfarwydd yn rheolaidd er mwyn atgyfnerthu dealltwriaeth y plant yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n ofalus ar gyfer defnyddio geirfa allweddol benodol y maent am i'r plant ddod i'w deall. Maent yn ailadrodd yn gyson ac mae hyn yn hybu dealltwriaeth y plant yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol a chyson o ganeuon, gyda'r plant yn ymuno'n frwdfrydig yn y canu. Mae'r defnydd hwn o rigymau cyfarwydd yn adeiladu hyder llafar y plant yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn arddangos geiriau cyfarwydd yn yr ardaloedd er mwyn datblygu ymwybyddiaeth y plant o lythrennau a geiriau syml. Mae mwyafrif y plant yn dod i gysylltu geiriau â'r ystyr cysylltiedig, er enghraifft wrth adnabod eu henwau ac enwau eu ffrindiau yn ystod cyfnod amser cylch boreol.

Mae ymarferwyr wedi gweithio'n ddygn i hyrwyddo diwylliant o fwynhad mewn darllen. Maent wedi parhau i gynnig amrediad cyfoethog o lyfrau diddorol ar draws holl ardaloedd y ddarpariaeth. Maent yn talu sylw rheolaidd i'r llyfrau, gan eu hestyn er mwyn cynnwys plant yn y profiad o fwynhau stori. Mae'r plant yn mwynhau trafod y lluniau gan droi tudalennau'n aeddfed er mwyn symud ymlaen â'r stori. Mae ymarferwyr yn manteisio ar y cyfnodau hyn ac yn deall eu bod yn gyfleoedd euraid i fwydo iaith a geirfa benodol gyda'r plant.

Mae'r ymarferwyr wedi datblygu'r cyfleoedd buddiol i blant greu marciau mewn gwahanol gyd-destunau a thrwy ddefnyddio offer amrywiol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd iddynt ddatblygu eu hyder wrth greu marciau gyda lliwiau gwahanol, gyda llawer yn arddangos rheolaeth dda wrth greu siapau amrywiol. Ceir cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu eu

hymwybyddiaeth o gysylltu ysgrifen â bwriad penodol. Er enghraifft, maent yn cymryd archebion am wahanol fwydydd gan eu ffrindiau a gan ymarferwyr. Cyfeiriant at fwydlen, cyn cofnodi'r archeb. Yn yr ardal allanol, maent yn creu marciau lliw amrywiol gan ddefnyddio sialciau mawr.

Mae ymarferwyr wedi canolbwyntio'n effeithiol ar ddatblygu cyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau mathemateg a rhifedd. Maent wedi sicrhau bod elfennau mathemategol yn amlwg ar draws yr holl ardaloedd chwarae. Maent yn cynllunio cyfleoedd buddiol i'r plant ddatblygu eu hymwybyddiaeth o bwysau a mesur, er enghraifft wrth ddefnyddio gwahanol gloriannau yn ardal y tŷ bach twt. Mae ychydig o blant mwy hyderus yn dechrau adnabod bod y rhifau ar y glorian ddigidol yn cynyddu po fwyaf o fwydydd sy'n cael eu gosod arni.

Ar draws yr ardaloedd chwarae, ceir enghreifftiau niferus o rifau wedi eu gosod ar adnoddau sy'n dod â'r plant yn fwyfwy cyfarwydd â defnyddio rhifau a'u gosod yn eu trefn. Yn ystod amser cylch, mae plant mwy hyderus yn cael eu hannog i gyfri'r holl blant yn eu tro, a llwyddant i gyrraedd tu hwnt i ddeg. Mae ymwybyddiaeth y plant o siapiau dau ddimensiwn yn datblygu'n dda, gydag ymarferwyr yn cyfeirio at sgwariau a thrionglau wrth drafod siâp y tost yn ystod amser byrbryd.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr wedi gweithio'n gydwybodol i ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer cryfhau medrau corfforol y plant. Mae cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu eu medrau rheoli offer mawr a mân. Mae lleiafrif yn taflu a dal gyda chydgysylltiad llaw a llygad da. Mae llawer yn chwarae gyda theganau, gan gyfeirio'r tryc i lawr y llethr yn fedrus fel ei fod yn aros ar y llwybr ar hyd y daith. Mae llawer yn cynnal cydbwysedd wrth fynd ar hyd y llwybr cerrig lliwgar, ac yna yn eu defnyddio i greu tŵr. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu hyder yn eu medrau corfforol ac yn arddangos cydbwysedd a chryfder da.

## A2 Datblygu ymhellach y defnydd o gwestiynu effeithiol i herio dysgu plant a datblygu eu geirfa

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr ac ymarferwyr wedi cydweithio'n gydwybodol er mwyn datblygu'r modd y maent yn rhyngweithio â'r plant yn ystod sesiynau. Bellach, maent yn rhoi pwyslais buddiol ar hyrwyddo medrau llafar y plant wrth iddynt chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Maent yn pwysleisio geirfa benodol y maent am i'r plant ddod yn gyfarwydd â hi, ac o ganlyniad, mae llawer yn arddangos ymwybyddiaeth a hyder cynyddol a dealltwriaeth dda o'r Gymraeg.

Mae'r ymarferwyr yn deall pa bryd i ymyrryd er mwyn pwysleisio geirfa, neu wrth holi cwestiwn er mwyn annog y plentyn i feddwl drostynt eu hunain. Er enghraifft, wrth drafod stori, mae ymarferwyr yn holi cwestiynau am rediad y stori, a thrafod y cymeriadau. Maent yn bwydo iaith gan ddatblygu dealltwriaeth y plant o wahanol drychfilod. Mae'r ymarferwyr yn holi'r plant yn gelfydd, ac yn rhoi amser i'r plentyn feddwl cyn ateb. Maent yn dangos parch at ymatebion y plentyn, gan fagu hyder yr unigolyn.

Wrth ddefnyddio cyllell i dorri pwmpenni, ceir rhyngweithio buddiol rhwng ymarferwyr a phlant. Ceir llawer o ailadrodd geirfa yn effeithiol, gan bwysleisio'r iaith darged. Mae ymarferwyr yn cynnig adborth defnyddiol, adeiladol, ac yn holi'r plant er mwyn ymestyn y sgwrs a datblygu hyder y plentyn. Er enghraifft, wrth ddefnyddio llysiau a phaent er mwyn creu argraffiadau ar bapur, mae ymarferwyr yn holi'r plentyn ynglŷn a pham maent wedi dewis llysieuyn arbennig, ac yn trafod pa liwiau paent maent wedi eu dewis er mwyn creu eu hargraffiad.

## A3 Sicrhau bod ymarferwyr yn defnyddio arsylwadau'n effeithiol i gynllunio'r camau nesaf yn natblygiad y plant

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi cryfhau'r cyfleoedd i rieni a gofalwyr rannu gwybodaeth am ddiddordebau a hoffterau eu plant. Mae ymarferwyr yn talu sylw buddiol i'r hyn sydd o ddiddordeb i'r plant yn eu gofal. Bellach, maent yn ystyried y diddordebau hyn wrth gynllunio cyd-destunau penodol ar gyfer chwarae a dysgu. Maent yn ychwanegu offer a deunyddiau at y ddarpariaeth er mwyn cynnal a sbarduno diddordeb a dychymyg y plant. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn cynnal eu diddordeb am gyfnodau estynedig ac yn ymgolli'n llawn yn eu chwarae. Mae'r disgyblion mwy aeddfed yn dechrau cyd-chwarae gan rannu adnoddau a rhyngweithio'n naturiol â'i gilydd.

Yn sgil derbyn hyfforddiant a rhannu arferion gyda thîm yr awdurdod lleol a mudiadau ymbarél, mae arweinwyr wedi cryfhau gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer adnabod cynnydd a datblygiad plant. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n bwrpasol, ac yn arsylwi'n gyson ar y plant gan adnabod cynnydd arwyddocaol yn eu datblygiad. Maent yn cofnodi'r manylion yn amserol, cyn eu crynhoi fel eu bod ar gael i'w hystyried wrth ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach. Mae hyn yn caniatáu i'r tîm ystyried cynnydd plentyn mewn gwahanol fedrau, a thrafod yr hyn sydd angen ei gynllunio er mwyn ei gefnogi ymhellach. Mae'r gweithdrefnau hyn yn synhwyrol ac yn cael effaith gadarnhaol ar y modd mae'r plant yn ymgysylltu, ac ar eu cynnydd yn y gwahanol fedrau.

## A4 Mynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd yn yr arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) diweddar

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn dilyn eu canllawiau eu hunain er mwyn sicrhau bod lleoliadau'n gweithredu ar yr argymhellion a nodir yn ystod eu harolygiadau.

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol**